Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Goleg Priory Gogledd Cymru

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/08/2015**

## Cyd-destun

Coleg annibynnol arbenigol yw Coleg Priory Gogledd Cymru sy'n darparu cymorth a gofal i oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd â syndrom Asperger, anhwylderau'r sbectrwm awtistig a chyflyrau cysylltiedig.

Mae'r coleg gerllaw campws Iâl Coleg Cambria yn Wrecsam.

Oherwydd cymhlethdod eu hanghenion a'u galluoedd dysgu, mae mwyafrif y dysgwyr yn cael addysg yn gyfan gwbl ar safle Coleg Priory ei hun. Mae'r dysgwyr hyn yn dilyn cyrsiau cyn-mynediad a lefel mynediad, gan gynnwys medrau byw yn annibynnol. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau amser llawn yng Ngholeg Cambria. Maent yn astudio ystod eang o gyrsiau o gymwysterau lefel mynediad mewn ystod o bynciau i gymwysterau Safon Uwch, er enghraifft daearyddiaeth a daeareg.

Mae pob dysgwr, ni waeth ble yw eu prif le astudio, yn cael cymorth yn y dosbarth a chymorth ychwanegol gan staff Coleg Priory, er enghraifft i ddatblygu eu defnydd cymdeithasol o iaith.

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae Gwasanaethau Addysg Priory wedi gwneud nifer o benodiadau newydd, gan gynnwys pennaeth gwasanaethau addysg a rheolwr addysg bellach.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r coleg:**

- Mae staff yn gwneud defnydd da o'r holiaduron a lenwyd gan ddysgwyr a rhieni i sicrhau bod rhaglenni astudio priodol ar waith yn union cyn iddynt dderbyn lle yn y coleg
- Mae ystod o brofiadau dysgu grŵp bach ac unigol pwrpasol i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddefnydd cymdeithasol o iaith a'u medrau byw yn annibynnol
- Pan fo'n briodol, mae dysgwyr yn dilyn ystod eang o gyrsiau yng Ngholeg Cambria
- Caiff dysgwyr eu cefnogi'n dda i ystyried cyfleoedd pellach ar gyfer hyfforddiant neu gyflogaeth wedi iddynt gwblhau eu cwrs
- Ceir cynlluniau datblygedig iawn i adleoli i gyfleusterau mwy priodol

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd y coleg i'w datblygu:**

- Nid yw'r cytundeb partneriaeth gyda Choleg Cambria yn cynnwys protocol rhannu gwybodaeth
- Nid oes gan y coleg system gynhwysfawr ar gyfer cofnodi a monitro i olrhain cynnydd dysgwyr yn agos a sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni anghenion dysgwyr yn llawn
- Nid yw athrawon bob amser yn cofnodi deilliannau disgyblion yn erbyn targedau eu cynllun dysgu
- Mae staff wrthi'n datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion dysgwyr ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig o hyd
- Nid oes gan reolwyr ac arweinwyr ddigon o ddealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella
- Ychydig iawn o gynnydd y mae'r coleg wedi'i wneud yn erbyn llawer o'r argymhellion o ymweliad monitro blynyddol 2014

## Argymhellion

**Dylai'r coleg:**

A1 Adolygu'r cytundeb partneriaeth gyda Choleg Cambria

A2 Rhoi ar waith system sy'n olrhain cynnydd pob dysgwr

A3 Parhau i ddatblygu arbenigedd staff mewn gweithio gyda dysgwyr ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig

A4 Sicrhau bod pob un o'r rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Diwygio'r adroddiad hunanarfarnu i gynnwys arfarniadau penodol o ddata deilliannau, a chynnydd, cyflawniad a phresenoldeb dysgwyr**

Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Mae'r coleg yn defnyddio fformat hunanarfarnu sydd wedi'i seilio ar fframwaith arolygu cyffredin Estyn.

Mae Pennaeth Coleg Priory yn darparu adroddiadau misol i Wasanaethau Addysg Priory. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn canolbwyntio ar safonau dysgwyr. Nid yw rheolwyr y sefydliad yn cymryd rhan yn ffurfiol mewn hunanarfarnu. O ganlyniad, nid ydynt yn adnabod cryfderau'r coleg a'r meysydd i'w datblygu cystal ag y mae angen iddynt eu hadnabod.

Nid oes dull systematig o gasglu data cynnydd dysgwyr i lywio hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae Coleg Priory yn dibynnu'n ormodol ar staff cymorth i gasglu'r wybodaeth y gallant ei chael am y cynnydd a wna dysgwyr ar gyrsiau a ddarperir gan Goleg Cambria. Yn ychwanegol, nid yw staff yn defnyddio data cynnydd ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n cael addysg yn gyfan gwbl ar safle Coleg Priory. O ganlyniad, prin iawn yw'r cyfeiriadau at ddata deilliannau dysgwyr yn yr adroddiad hunanarfarnu.

Mae cytundeb partneriaeth ar waith rhwng Coleg Priory a Choleg Cambria. Mae hyn fel arfer yn nodi bod angen rhannu data dysgwyr. Fodd bynnag, nid oes system i wneud hyn.

**Argymhelliad 2: Defnyddio'r canfyddiadau o'r adroddiad hunanarfarnu i lywio'r targedau datblygu yn y cynllun gweithredu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r coleg yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr. Prin yw'r mewnbwn a gaiff rhanddeiliaid, gan gynnwys Gwasanaethau Addysg Priory, i hunanarfarnu.

Mae'r cynllun datblygu'n nodi tri tharged ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn gysylltiedig ag olrhain cynnydd dysgwyr a datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r rhain yn gyffredinol yn ymwneud â'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn darparu unrhyw gerrig milltir dros dro na dyddiadau targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu.

Er Tachwedd 2014, mae'r adroddiad misol i Wasanaethau Addysg Priory yn cynnwys yr un pwyntiau gweithredu. Mae rheolwyr y sefydliad wedi cymryd camau cyfyngedig mewn perthynas â'r meysydd a nodwyd i'w gwella.

Nid yw'r cynllun datblygu yn mynd i'r afael yn ddigonol ag argymhellion yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf.

**Argymhelliad 3: Adolygu rhaglenni galwedigaethol ac academaidd dysgwyr i nodi cyfleoedd i staff yng Ngholeg Priory ymestyn a chefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac addysgol dysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Cynhelir adolygiadau cynnydd amlasiantaethol ar y cyd ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob dysgwr. Fodd bynnag, mae'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar ymddygiad ac agweddau ac ni roddir digon o sylw i gynnydd dysgwyr. Ni chaiff targedau cynlluniau dysgu unigol eu monitro'n ddigon agos i sicrhau cynllunio effeithlon yn y dyfodol. Nid oes trefniadau ffurfiol ar waith i gynnal adolygiad ar y cyd o'r rhaglenni galwedigaethol ac academaidd sydd ar gael i ddysgwyr.

Mae staff Coleg Priory yn cefnogi dysgwyr yn dda mewn ystod eang o gyfleoedd dysgu sy'n addas ar gyfer eu hanghenion a'u diddordebau.

**Argymhelliad 4: Sefydlu system ffurfiol i olrhain ac arfarnu cynnydd dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol ac academaidd**

Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Caiff gwybodaeth ei rhannu am gynnydd dysgwyr mewn modd anghyson. Mae'r olrhain yn cael ei wneud ar bapur ar hyn o bryd yn ffeiliau disgyblion unigol, ac nid oes system strwythuredig ar waith lle gall staff ddod o hyd i wybodaeth yn hawdd. Ni chaiff cynlluniau dysgu unigol eu hadolygu'n systematig. Nid yw staff yn cofnodi deilliannau dysgwyr yn gyson yn erbyn targedau galwedigaethol ac academaidd. O ganlyniad, nid yw'r coleg yn gwybod pa mor dda y mae pob un o'i ddysgwyr yn gwneud cynnydd ar unrhyw adeg benodol.

Mae gan bob dysgwr gynllun dysgu unigol. Fodd bynnag, mae dogfennau'n anghyflawn ac, yn aml, nid ydynt yn cynnwys targedau penodol a mesuradwy i lywio cynllunio yn y dyfodol.

**Argymhelliad 5: Gwneud yn siŵr bod cynlluniau ar gyfer datblygu medrau byw yn annibynnol dysgwyr yn berthnasol a phriodol i'r dyheadau ar gyfer bywydau'r dysgwyr yn y dyfodol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r coleg yn cynnal proses ymgynghori drylwyr gyda dysgwyr a rhieni fel rhan o'u gweithdrefnau ymsefydlu. Mae hyn yn galluogi staff i baratoi rhaglen astudio briodol i ddysgwyr ddechrau ar unwaith pan fyddant yn ymuno â'r coleg.

Rhoddir ffocws cryf ar ddatblygu annibyniaeth. Er enghraifft, mae dysgwyr yn datblygu medrau mewn cyllidebu a choginio, ac fe gânt eu cefnogi i deithio'n annibynnol, lle bo'n briodol.

Gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o leoliadau blaenorol, mae'r coleg yn rhoi ystyriaeth lawn i ddiddordebau'r dysgwyr mewn perthynas ag anghenion a chyflogaeth yn y dyfodol. Mae dysgwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'r cyrsiau y maent yn eu dilyn. Mae cynllunio pontio effeithiol yn cefnogi'r dysgwyr wrth iddynt fynd yn eu blaenau trwy eu haddysg. Caiff dysgwyr eu hannog i ystyried ystod eang o opsiynau yn y dyfodol, gan gynnwys cymwysterau lefel alwedigaethol a lefel prifysgol, lle bo'n briodol. Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda nifer fach o bartneriaid i gefnogi dysgwyr yn y broses bontio, gan gynnwys yn ystod cyfnodau gwyliau. Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn beryglu canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am y coleg

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Priory Gogledd Cymru |
| **Rhif y coleg** | F0006006 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 15/06/2015 |
| **Perchennog** | Gwasanaethau Addysg Priory |
| **Staff** | 1 Is-Bennaeth (swydd wag), 1 rheolwr busnes, 1 athro anghenion addysgol arbennig, 3 chydlynydd addysg, 2 uwch arweinydd tîm, 1 therapydd lleferydd ac iaith (rhan-amser), 1 therapydd lleferydd ac iaith sy'n fyfyriwr, 11 aelod o staff cymorth dysgu. |
| **Nifer y dysgwyr** | 18 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd / 38 wythnos y flwyddyn |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau'r sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, anhwylder diffyg canolbwyntio, dyspracsia, dyslecsia, anhwylderau pryder, anhwylder obsesiynol cymhellol. |
| **Arolygiad llawn diwethaf** | Dim arolygiad hyd yn hyn |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 28/04/2014 |
| **Arolygiad diwethaf AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Huw Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |